




Mae'n fyrdwn cyffredin yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni - bod yn rhaid inni gyflawni mwy gyda llai o adnoddau - tasg amhosib bron. Mae'n rhaid i ni fod mor ofalus wrth ddefnyddio ein hadnoddau prin, boed yn ariannol neu staff. Mae cynnal a chadw ein hadeiladau, a'u cadw'n daclus a diogel, yn hollbwysig, ond a ddylen ni geisio am grantiau bach ar gyfer gwaith atgyweirio, neu'n hytrach, ddatblygu ceisiadau grant sylweddol? A ddylen ni chwilio am fwy o gyllid craidd? A ddylen ni ddatblygu ein gwaith gyda'r gymuned leol? A ddylen ni sicrhau mwy o gyhoedduswydd? A ddylen ni geisio dylanwadu ar bolisi cyhoeddus? Mae cymaint i'w wneud!

Unwaith eto, diolch i chi am eich cefnogaeth - mae'n cael ei werthfawrogi'n arw! Rydan ni yn croesawu cyfeillion a chefnogwyr lleol ym mhob un o'n prosiectau.

Os nad ydych eisoes yn Gyfaill i'r Ymddiriedolaeth – a fydddech chi'n fodlon ein cefnogi a'n helpu yn ein gwaith?

Mae bod yn aelod o'r Cyfeillion yn agored i bawb ar gost o £10 y flwyddyn; amgaewn ffurflen aelodaeth a ffurflen archeb banc. Neu gallwch gysylltu â swyddfa'r Ymddiriedolaeth. I'r rhai ohonoch sydd eisoes yn aelodau - pam na roddwch chi'r ffurflen aelodaeth i rywun a allai fod â diddordeb?



Libanus o'r ffordd

Atgyweirio to Libanus

Mae rhan gyntaf gwaith atgyweirio hir-ddisgwyledig yng Nghapel Libanus yn cychwyn ym mis Medi 2012. Mae Libanus yn gapel Bedyddwyr gradd II* dianghenraid pwysig wedi'i leoli yn Waunclyndaf ger Llansadwrn, Sir Gaerfyrddin. Fe'i adeiladwyd yn 1841, ac mae'n enghraifft gynnar o gapel deulawr gwledig gyda'r fynedfa yn y talcen blaen, ac mae iddo du mewn o safon, heb fawr o ôl newid. Y prif waith yn ystod y cyfnod hwn fydd atgyweirio'r to, gan gynnwys ail-osod y llechi; adnewyddu estyll tywydd diffygiol a bondoeau, adnewyddu'r cwteri a landeri, atgyfnerthu rhannau o bennau muriau'r capel, a chryfhau strwythur y nenfwd (yng ngwagle'r to).

O ganlyniad i'r gwaith hwn, bydd yr adeilad wedi'i ddiogelu rhag y tywydd. Gwneir mwy o waith i du allan a thu mewn yr adeilad yn rhan nesaf y gwaith, fel y bo'r cyllid yn

caniatáu, gan gynnwys atgyweirio pellach ac unrhyw newidiadau addas.

Mae amseriad y gwaith hwn wedi cael ei reoli yn ystod 18 mis diwethaf gan orfod aros am gadarnhad o grantiau amrywiol, a thrwy bresenoldeb ystlumod a thylluanod yng ngwagle'r to. Mae angen trwydded gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgymryd â gwaith a allai darfu ar ystlumod.

Y contractiwr ar gyfer y gwaith yw David A Siggery Cyf, o dan oruchwyliaeth ein penseiri Alwyn Jones Penseiri Architects. Ariennir y gwaith drwy grantiau gan Cadw, y Pilgrim Trust, Cyngor Sir Gaerfyrddin (Cronfa'r Degwm), y Vronhaul Llandinam Charity, y Manifold Trust, Ymddiriedolaeth E & G Morgan, yr Allchurches Trust a Chynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ddiolchgar iawn i'r holl gyllidwyr.



Trwsio'r nenfwd yn Hen Dŷ Cwrdd

Ymwelydd i'r Hen Dŷ Cwrdd

Derbyniodd Hen Dŷ Cwrdd ymweliad gan Miss G. Margaret Edwards, a'i nai, Mr Keith H Edwards, y ddau o Gaerdydd, yn niwedd 2011. Mae gan Miss Edwards gysylltiad â Hen Dŷ Cwrdd trwy ei rhieni, Annie Matilda Llewelyn a Charles E. Edwards, a briododd yn y capel yn 1906. Cafodd Christine Moore, ein Swyddog Datblygu, y pleser o gael cwmni Miss Edwards a Mr Edwards pan ddaethant heibio. Mae Miss Edwards yn wyres i Rees Llewelyn (1851-1919) perchennog y Bwllfa and Merthyr Dare Steam Collieries (1891) Ltd., ac un o ffigurau amlycaf yn hanes y diwydiant glo yng Nghwm Cynon. Bu gan y teulu Llewelyn gysylltiadau cryf gyda Hen Dŷ Cwrdd am flynyddoedd lawer. Mae'n un enghraifft arall o'r nifer o gysylltiadau hynod sydd gan achos Hen Dŷ Cwrdd yn yr ardal.



Priodas Annie Matilda Llewelyn a Charles E. Edwards 1906

Gwaith atgyweirio yn Hen Dŷ Cwrdd

Ym mis Medi 2012 fe gwblhawyd yr ail ran o'r gwaith atgyweirio yn Hen Dŷ Cwrdd, capel Undodaidd gradd II yn Nhrecynon, Aberdâr.

Roedd y gwaith yn cynnwys atgyweiriadau helaeth i'r nenfwd ais a phlaster, ailosod rhannau o'r cornis, a dyfeisio modd i atgyweirio gyda thechnegau traddodiadol y rhosyn nenfwd addurnol, a oedd wedi cracio'n ddrwg. Addurnwyd y nenfwd a rhannau o'r waliau hefyd, ac fe atgyweiriwyd y goleuadau nenfwd. Hefyd, fe gafodd y wal flaen ei thrin er mwyn rhwystro'r pydredd sych sydd yno rhag datblygu'n bellach.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ddiolchgar iawn am gyllid ar gyfer y gwaith a dderbyniwyd gan Biffa (Biffa Award, Treth Tirlenwi),

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Tâf (Cronfa Deddf Eglwys Cymru), Chynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig, Cyfeillion yr Ymddiriedolaeth, a rhoddion preifat. Y contractiwr oedd John Weaver Construction, yn gweithio o dan oruchwyliaeth ein pensaer, Richard Spencer Dean.

Bydd gwaith pellach i'r adeilad cynnwys atgyweirio'r fynwent a'r waliau terfyn, ailwampio gwasanaethau trydan a gwresogi'r adeilad, yn ogystal ag unrhyw newidiadau a fydd yn gwneud yr adeilad yn fwy ymarferol i'w defnyddio gan y gymuned. Mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych ymlaen at weithio gyda phobl a sefydliadau lleol i ddatblygu prosiect Hen Dŷ Cwrdd er mwyn ei alluogi i fod yn adnodd i'r gymuned unwaith eto.

Lansio llyfr yn yr Hen Dŷ Cwrdd

Cyhoeddir llyfr newydd am hanes achos yr Hen Dŷ Cwrdd gan yr hanesydd lleol nodedig David Leslie Davies MA, sef *"They Love To Be Dissenters" - The Origins and History of Hen Dŷ Cwrdd, Aberdare, 1650-1862.*

Yr Hen Dŷ Cwrdd yw'r safle addoli Ymneilltuol hynaf yr ardal Aberdâr. Fe'i sefydlwyd yn Nhrecynon yn 1751 fel tŷ cwrdd ar gyfer 'Protestaniaid Ymneilltuol' gan ddwyn y disgrifiad 'Presbyteriaidd' - term a ddefnyddir yn weddol fras ar y pryd.

Mae tarddiad yr achos yn deillio o gyfnod Rhyfel Cartref Lloegr yn ystod y 1640au, ac i oes y weriniaeth Biwritanaidd y 1650au. Tyfodd allan o gyfarfod Ymneilltuol mae'n hysbys iddo fod wedi ei ffurfio erbyn 1650 mewn man anghysbell ar y mynydd rhwng Aberdâr a Merthyr Tudful.

Ar ôl i'r cyfarfod gwreiddiol hwn ddirwyn i ben yng nghanol y 18fed ganrif, fe'i holyndwyd gan dair achos gwahanol wrth i'r gynulleidfa rannu. Fe ymsefydlodd un o'r rhain yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon.



David Leslie Davies yn annerch yn ystod diwrnod Drysau Agored 2011 yn Hen Dŷ Cwrdd

Ar y dechrau, roedd aelodau'r gynulleidfa newydd hon yn arddel nifer o safbwyntiau crefyddol amrywiol. O gyfnod y Parch Thomas Evans ('Tomos Glyn Cothi'), a fu'n weinidog o 1811, fe fabwysiadodd y gynulleidfa syniadau crefyddol radical a grynhoir gan y gair 'Undodaidd'. Mae Tomos Glyn Cothi yn un o nifer o ffigyrau arwyddocaol sydd wedi chwarae eu rhan yn hanes yr achos hwn - ac yn hanes diwylliannol a diwydiannol yr ardal, a Chymru yn ei chyfanrwydd. Ymhlith y rhain mae Rees Owen, pennaeth teulu dylanwadol o arweinwyr crefyddol a busnes yn y 18fed ganrif; Edward Evan ('athro' barddol Iolo Morganwg), Iolo ei hun: sawl un o ymgyrchwyr y Siartwyr; Griffith Rhys Jones ('Caradog'); yr haneswyr Rees Jenkin Jones a W. W. Price; a theulu perchnogion pyllau glo Llewelyn, y Bwllfa.

Yn y llyfr newydd hwn - y cyntaf yn Saesneg am yr achos - mae David Leslie Davies yn olrhain hanes y gynulleidfa yn ôl i ganol yr 17eg ganrif, ac yna'n canolbwyntio ar ei hanes wedi hynny hyd at 1862, pan ddymchwelyd tŷ cwrdd 1751, adeilad bychan ar ffurf bwthyn, a chodwyd yr adeilad presennol.

Mae hwn yn bwynt naturiol ar gyfer gosod 'saib' yn hanes y capel, gan nad oes bron unrhyw beth wedi ei ysgrifennu yn Saesneg am ei flynyddoedd cynharaf, ac mae'r hanes Cymraeg, a gyhoeddwyd yn 1951 i nodi dau ganmlwyddiant yr achos, yn canolbwyntio yn bennaf ar y cyfnod ar ôl cwblhau'r adeilad newydd. Serch hynny, fe nodir ffigyrau blaenllaw yn hanes y capel ar ôl 1862, ac mae sawl atodiad a ffotograffau yn egluro stori'r lle arbennig hwn. Mae'r llyfr yn cael ei lansio mewn digwyddiad yn yr Hen Dŷ Cwrdd ar ddydd Sadwrn 22 Medi 2012.

Yr Hen Gapel Llwynrhadowen

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud y nenfwd yn ddiogel, ac wedi ailgysylltu'r cyflenwad trydan fel y gellir cynnal digwyddiadau achlysurol yn ddiogel yn yr Hen Gapel, wrth i gynlluniau gael eu datblygu ac arian ei godi ar gyfer rhaglen lawn o waith atgyweirio. Adferwyd y traddodiad o gynnal gwasanaeth carolau yng ngolau kannwyll ar Noswyl y Nadolig y llynedd, a'r gobaith yw bydd yn ddiwyddiad blynyddol.



Gwasanaeth yng ngolau kannwyll Noswyl Nadolig 2011

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr Hen Gapel yn ystod y digwyddiad Drysau Agored ar ddydd Sul 18 Medi 2011, a theimlad cyffredinol y cyfarfod oedd pwysigrwydd cadw cymeriad y capel, ond gyda phwyslais cyfatebol ar ddehongli a deall yr hyn mae'r adeilad yn ei gynrychioli. Roedd cefnogaeth ar gyfer cynnal digwyddiadau amrywiol a chyngherddau, ond mynegwyd y brwdfrydedd mwyaf ar gyfer defnyddio'r Hen Gapel i gofio ac i ddehongli hanes, gyda phwyslais ar y Smotyn Du a'r frwydr dros yr hawl i bleidleisio a thegwch cymdeithasol. Roedd y troi allan a ddigwyddodd yn lleol a'r allfudo a ddilynodd yn un thema benodol, gyda phwyslais ar edrych tuag allan, yn chwilio am ddolenni a chysylltiadau mewn mannau eraill e.e. cysylltiadau amrywiol â'r UDA, yn ogystal ag yn nes adref. Fe soniwyd hefyd, wrth gwrs, am y cysylltiadau adnabyddus gyda Dylan Thomas a Frank Lloyd Wright.



Bethania Maesteg © Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Cynlluniau ym Methania

Yn ystod hanner cyntaf 2012, mae'r ymddiriedolwyr a'r staff wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu cais ariannol sylweddol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Capel Bethania, Maesteg (Bedyddwyr, rhestredig graddfa II*). Arweiniwyd y gwaith gan Christine Moore, ein Swyddog Datblygu, ac Alwyn Jones o Alwyn Jones Penseiri Architects. Datblygwyd y cais drwy weithio gyda'r gymuned leol, a bydd y project yn cynnwys gwaith cadwraeth ac atgyweirio i'r safonau uchaf i adeiladwaith, gosodiadau a ffitiadau'r capel, gan ei ddychwelyd i'r cyflwr gwreiddiol fel yr oedd yn 1908. I ddenu defnyddwyr newydd, bwriedir ei addasu'n sensitif, gan gyflwyno'r newidiadau lleiaf posibl, a fydd yn cynnwys llwyfan symudadwy, er mwyn galluogi'r ystod fwyaf eang o berfformiadau.

Mae'r ysgoldy a'r ystafelloedd atodol sydd ynghlwm i'r capel yn llai arwyddocaol yn bensaernïol, ac ynghyd ag estyniad ar dir i gefn yr adeilad, caiff y rhain eu haddasu'n swyddfeydd, ystafelloedd cyfarfod, ystafelloedd newid, ystafelloedd ymarfer, archif cymdeithas hanes lleol, caffi/bar, siop lyfrau, cegin, a thoiledau. Defnyddir casgliad o ddogfennau a gwrthrychau yn dyddio o 1908, ynghyd â gwybodaeth ac atgofion a gasglwyd oddi wrth aelodau'r eglwys i ddehongli hanes Bethania, Anghydfurfiaeth, a swyddogaeth yr iaith Gymraeg, a'u lle ym mywyd diwylliannol, addysgol a chymdeithasol y fro, a Chymru'n gyffredinol.

Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd gwaith datblygu pellach yn ystod 2013, gwaith cyfalaf yn 2014-5, gyda'r prosiect yn parhau tan 2019. Dylai'r Ymddiriedolaeth wybod os yw'r cais rownd gyntaf wedi llwyddo yn ystod mis Hydref 2012.

Cynhadledd Future For Religious Heritage

Cynhelir cynhadledd yn Fenis rhwng 14-17 Tachwedd 2012 ar y pwnc "Defnydd estynedig o Adeiladau Treftadaeth Grefyddol".

Rhwydwaith yw Future for Religious Heritage sy'n gweithio i ddiogelu treftadaeth adeiledig grefyddol ar draws Ewrop, ac mae'n cynnwys elusennau, sefydliadau llywodraeth ac adrannau prifysgol o fwy na 25 o wledydd Ewropeaidd.

Mae FRH yn ddolen gyswllt rhwng y rhai sy'n gweithio yn y maes a llunwyr polisi, ac yn fodd i gyfathrebu ar draws gwledydd, diwylliannau a chrefyddau, gan gyfnewid gwybodaeth a phrofiadau cyffredin.

Mae FRH wedi'i gofrestru yng Ngwlad Belg gyda swyddfeydd yn Llundain a Brwsel, ac fe'i sefydlwyd yn 2010.

www.futurereligiousheritage.eu
info@futurereligiousheritage.eu
 07822 146 252



Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cymorth grant gan Cadw, adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, i gynnal rhan sylweddol o'i chostau beunyddiol.

Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth am ragor o wybodaeth. Byddwn yn falch o glywed gennych chi!

Ebost: post@addoldaicymru.org
 Ffôn: 01766 515590

Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru
Capel Peniel
Tremadog
Porthmadog
LL49 9PS

Elusen Gofrestredig 1084030
 Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343